

15 Gorffennaf 2019

Annwyl bawb

Parthed: Penderfyniadau ynghylch rhan un o'r Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi crynodeb o benderfyniadau'r Bwrdd ar ôl iddo drafod yr ymatebion a gafwyd i'r **ymgyngoriad cyntaf** yn deillio o'i adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn i bawb a rannodd eu safbwyntiau fel rhan o'r broses ymgynghori. Ar ôl trafod yr ymatebion a ddaeth i law yn ofalus, amlinellir isod benderfyniad terfynol y Bwrdd ar bob un o'r cynigion perthnasol:

Cynnig 1: I ddileu, o adeg y diddymiad nesaf, sy'n debygol o ddigwydd ym mis Ebrill 2021, y trefniadau pontio sydd ar waith i Aelodau hawlio taliadau llog morgais ac arian ar gyfer atgyweiriadau hanfodol ar eiddo y maent yn berchen arno.

Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a gafwyd, a oedd yn anghytuno i raddau helaeth â chynnig y Bwrdd. Dywedodd un ymatebydd y byddai'r cynnig hwn yn cynyddu'r gost i drethdalwyr. Dywedodd un arall fod Aelodau wedi ymrwymo i gytundebau morgais hirdymor yn ddiwyll gyda phob disgwyliad y byddai'r trefniadau yn parhau tan ddiwedd eu cyfnod yn y swydd. Nododd y Bwrdd, er nad oedd dyddiad terfyn i'r trefniadau pontio gwreiddiol, y gallai Aelodau sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth hon ddisgwyl yn rhesymol iddi barhau.

Fodd bynnag, ar ôl pwysu a mesur yr egwyddor o sicrhau atebolrwydd wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, penderfynodd y Bwrdd y dylai fod dyddiad terfyn i'r trefniadau pontio. Yn sgil ei drafodaethau, penderfynodd y Bwrdd ddiwygio ei gynnig gwreiddiol. Penderfynodd y Bwrdd y bydd y ddarpariaeth hon bellach yn dod i ben ar ddiwedd y Chweched Cynulliad. Bydd Aelodau sy'n hawlio taliadau llog morgais ar hyn o bryd yn parhau i allu gwneud hynny yn ystod y Chweched Cynulliad, ond nid y tu hwnt i hynny. Yn ogystal at hynny, er mwyn sicrhau nad oes cost gynyddol i drethdalwyr yn ystod y cyfnod hwn, cytunodd y Bwrdd i nodi mai'r cyfanswm ar gyfer y taliad llog morgais y caiff Aelodau ei hawlio yn ystod y Chweched Cynulliad fyddai'r swm a hawlr ar ddiwrnod cyntaf y Cynulliad hwnnw. Yr unig eithriad i'r egwyddor hon yw y bydd y Bwrdd yn caniatáu ar gyfer codiadau

a gostyngiadau dilynol yn y gyfradd llog yn unol â chyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Cred y Bwrdd fod y penderfyniad hwn yn deg i drethdalwyr ac i Aelodau sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd.

Cynnig 2: I gyflwyno darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddychwelyd unrhyw ad-daliadau o gytundebau rhent i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

Cytunodd yr holl ymatebwyr ag ail gynnig y Bwrdd, ac felly penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynnig hwn yn llawn yn ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Cynnig 3: I gyflwyno'r egwyddorion gorfodol ar gyfer swyddfeydd a ariennir drwy'r Penderfyniad fel yr amlinellir:

- ***Parch y Cynulliad: Dylai pob swyddfa adlewyrchu statws a phwysigrwydd y Cynulliad fel sefydliad cenedlaethol a bod yn ymwybodol mai'r swyddfa yw wyneb lleol y Cynulliad;***
- ***Diogel: Dylai pob swyddfa fod yn ddiogel, yn weladwy ac yn hawdd eu cyrraedd drwy drafnidiaeth gyhoeddus a manau hygyrch i bawb sy'n eu defnyddio;***
- ***Agored a chroesawgar: Dylai pob swyddfa gael eu staffio gan weithwyr cyflogedig.***

Er bod pob ymateb i'r cynnig hwn yn ei groesawu mewn egwyddor, roeddent hefyd yn codi rhai pryderon.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon ynghylch defnyddio'r gair "gorfodol" o ran gweithredu'r egwyddorion. Ar ôl trafod y mater, penderfynodd y Bwrdd ddileu'r gair "gorfodol" ac arfer dull llai rhagnodol. Fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd mai mater i'r Aelodau fyddai asesu'r sefyllfa a chadarnhau i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau bod eu swyddfeydd yn bodloni ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn.

Yn sgil pryderon eraill, cytunodd y Bwrdd i roi "Enw Da'r Cynulliad" yn lle "Parch y Cynulliad" oherwydd ei fod yn credu y byddai hynny'n rhoi mwy o eglurder i'r Aelodau. Cytunodd y Bwrdd hefyd i ddileu'r geiriau "drwy drafnidiaeth gyhoeddus" o'r ail egwyddor. Nododd y Bwrdd y pryderon a godwyd y gallai'r lefel wahanol o drafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir mewn gwahanol rannau o Gymru effeithio ar hyn. Penderfynodd y Bwrdd newid y geiriau er mwyn sicrhau bod pob swyddfa yn hawdd ei chyrraedd i'r cyhoedd ac yn fannau hygyrch i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i ymgysylltu ag etholwyr.

Gan fod y Bwrdd wedi penderfynu diwygio ei gynnig gwreiddiol, bydd geiriad y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad bellach yn darllen fel a ganlyn:

Dylai pob swyddfa a ariennir drwy'r Penderfyniad ddilyn yr egwyddorion a ganlyn:

- *Enw da'r Cynulliad: Dylai pob swyddfa adlewyrchu statws a phwysigrwydd y Cynulliad fel sefydliad cenedlaethol a bod yn ymwybodol mai'r swyddfa yw wyneb lleol y Cynulliad;*
- *Diogel: Dylai pob swyddfa fod yn ddiogel, yn weladwy ac yn hawdd i'r cyhoedd ei chyrraedd ac yn fan hygyrch i bawb sy'n ei defnyddio;*
- *Agored a chroesawgar: Dylai pob swyddfa gael ei staffio gan weithwyr cyflogedig.*

Cynnig 4: I ffurfioli'r canllawiau ar gyfer caffael swyddfeydd.

Cynnig 5: I gyflwyno darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gynnal prisiad costau ar eu swyddfa ac adneuo copi o'r brydles gyda'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau fel yr amlinellwyd.

Ar ôl trafod yr ymatebion a gafwyd i'r ddau gynnig hyn, penderfynodd y Bwrdd eu gweithredu'n llawn.

Nododd y Bwrdd y pryderon a godwyd gan ymatebwyr o ran ariannu'r cynigion hyn. Cred y Bwrdd y gallai fod yn afreolus ac yn ddryslyd darparu lwfans ychwanegol ar gyfer y newidiadau hyn. Yn lle hynny, bydd y Bwrdd yn ystyriol o'r costau ychwanegol pan fo'n gosod y lwfans Costau Swyddfa ar gyfer y Chweched Cynulliad. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn nrafft terfynol y Penderfyniad a bydd ymgynghoriad arno y flwyddyn nesaf.

Cynnig 6: I ddiwygio'r lwfans cyflenwi dodrefn swyddfa fel yr amlinellwyd.

Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a gafwyd i'r cynnig hwn a oedd oll yn nodi pryderon ynghylch gallu'r Aelodau i brynu dodrefn yn lleol yn hytrach na drwy gyflenwr dan gontract. Nododd y Bwrdd nad yw'n ofynnol i Aelodau brynu drwy'r cyflenwyr a gytunwyd ymlaen llaw a'u bod yn rhydd i ddefnyddio eu Lwfans Costau Swyddfa i brynu dodrefn gan bwy bynnag y maent yn ei ddewis. Fodd bynnag, disgwylir i Aelodau ddilyn yr egwyddorion a amlinellir ym mhennod un o'r Penderfyniad wrth brynu unrhyw nwyddau ar gyfer eu swyddfeydd, gan gynnwys dodrefn. Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r geiriad a sicrhau bod hyn yn gliriach yn y Penderfyniad. Atgoffir yr Aelodau, os byddant yn dewis prynu unrhyw ddodrefn gan gyflenwyr eraill, eu bod yn llwyr gyfrifol am y dodrefn hynny ac ni fyddant yn cael y taliad am gostau adeiladu neu gostau cynnal a chadw ychwanegol y byddai'n rhaid i Gomisiwn y Cynulliad eu talu fel arall.

Penderfynodd y Bwrdd weithredu ei gynnig gwreiddiol yn llawn.

Cynnig 7: I'w gwneud yn ofynnol bod yr holl offer TGCh ychwanegol yn cael eu prynu drwy Gomisiwn y Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â systemau TGCh y Cynulliad.

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â chynnig gwreiddiol y Bwrdd. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon y gallai'r cynnig hwn gynyddu'r gost gyffredinol i drethdalwyr a chyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i Aelodau. Trafododd y Bwrdd pa mor fuddiol oedd ei gynnig gwreiddiol wrth sicrhau bod cynhyrchion yn gydnaws â systemau Comisiwn y Cynulliad. Roedd hyn yn cynnwys lleihau'r risg o ymosodiadau seiber a gwella diogelwch data yn swyddfeydd yr Aelodau. Roedd y Bwrdd hefyd yn cytuno â'i farn flaenorol y byddai costau cyffredinol y cynnig hwn yn rhatach oherwydd costau sicrhau bod cynhyrchion "oddi ar y silff" yn gydnaws â seilwaith TGCh y Cynulliad. Fodd bynnag, yn sgil y sylwadau a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad, penderfynodd y Bwrdd y byddai'n diwygio rhywfaint ar y cynnig ac yn newid "i'w gwneud yn ofynnol" i "i argymell". Os yw'r Aelodau'n dewis peidio â dilyn ei argymhelliad, mae'r Bwrdd yn glir na ddylent ddisgwyl cymorth gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer eu pryniannau TGCh.

Yn dilyn y penderfyniad hwn, penderfynodd y Bwrdd gyflwyno'r paragraff diwygiedig a ganlyn yn 6.4.4 o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad:

Rhaid i Aelodau sy'n dymuno prynu offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ychwanegol i gefnogi gwaith eu swyddfa gyflwyno cais ysgrifenedig ar gyfer yr eitemau cyn eu prynu i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Argymhellir prynu'r offer hyn drwy Gomisiwn y Cynulliad i sicrhau ei fod yn gydnaws â systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a mesurau seiberddiogelwch y Cynulliad.

Cynnig 8: I ddiwygio'r rhestr o eitemau a ganiateir fel yr amlinellwyd.

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â chynnig gwreiddiol y Bwrdd felly penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynnig yn llawn.

Cynnig 9: I ddiwygio'r cymalau ar gyfer teithio ar fusnes pwyllgorau fel yr amlinellwyd.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â chynnig y Bwrdd i ddiwygio'r adran yn y Penderfyniad ar deithio ar fusnes pwyllgor. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â chynnig y Bwrdd, gan nodi ei fod yn ddiangen ac yn debygol o gynyddu'r baich ar staff y Comisiwn. Fodd bynnag, gan nad yw'r Penderfyniad yn ariannu teithio ar fusnes pwyllgor, mae'r Bwrdd wedi penderfynu y dylid newid y darpariaethau.

BWRDD TALIADAU REMUNERATION BOARD

Awgrymodd un ymatebydd fân newid i'r geiriad a gynigiwyd gan y Bwrdd, gan nodi y dylid dileu'r geiriau "ac ysgrifenyddiaeth y pwyllgor". Cytunodd y Bwrdd â'r awgrym hwn a phenderfynodd ar eiriad newydd, a fydd yn cael ei weithredu ym mharagraff 4.3 yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad, sef:

"Mae trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer teithio ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Cynulliad ac nid yw wedi'i gynnwys yn y Penderfyniad."

Materion eraill


Nododd y Bwrdd y pryder a godwyd gan un ymatebydd wrth alw am gymorth ychwanegol i Aelodau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â chostau rhentu swyddfa uchel. Mae'r Bwrdd wedi trafod y mater hwn o'r blaen ac nid yw wedi canfod unrhyw batrwm ar gyfer ardaloedd rhentu cost uchel ledled Cymru. Gan fod nifer sylweddol o ffactorau'n effeithio ar gostau rhentu swyddfeydd lleol, mae'n anodd cynllunio darpariaeth a fyddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn. Os bydd Aelodau'n wynebu sefyllfa o'r fath, byddai'r Bwrdd yn eu hannog i wneud cais am gymorth ychwanegol drwy'r broses treuliau eithriadol fel y nodir ym mharagraff 2.4 o'r Penderfyniad.

Trafododd y Bwrdd hefyd y pwynt a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad am allu'r Aelodau i dalu am gostau swyddfa a biliau llety preswyl drwy ddebyd uniongyrchol. Er nad yw hyn yn fater i'r Bwrdd, cytunodd y bydd yn gofyn i Gomisiwn y Cynulliad edrych ar ba mor ymarferol y byddai caniatáu i Aelodau wneud hynny.

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi adroddiad terfynol ar yr adolygiad ac ymgynghoriad terfynol ar y Penderfyniad yn ei gyfanrwydd ddechrau 2020.

Hefyd, caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan, yn yr adran sy'n trafod yr adolygiad.

Cofion gorau,



Y Fonesig Dawn Primarolo

Cadeirydd y Bwrdd Taliadau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English